**UMAber yn dathlu**
CYMDEITHASAU

| | Gwobr | Meini prawf |
|---|---|---|
| *Gwobr Gymdeithas* | **Cymdeithas y Flwyddyn** | Cymdeithas y Flwyddyn yw'r wobr mae pawb yn eiddgar i'w hennill o fewn Tîm Aber. Fe'i cyflwynir i'r gymdeithas fwyaf llwyddiannus, ymroddgar a gweithredol yn ystod y flwyddyn academaidd. |
| | **Cymdeithas Academaidd y Flwyddyn** | Fe'i cyflwynir i Gymdeithas Academaidd sydd wedi gwneud cyfraniad rhagorol i'w hadran, yn ogystal ag i'r Undeb, y Brifysgol a'r Gymuned Ehangach. |
| | **Cymdeithas Newydd Orau** | Dyfernir i gymdeithas sydd wedi dechrau'n ddiweddar, neu sydd wedi ailgychwyn, dros y flwyddyn academaidd diwethaf. Mae wedi gweithio'n galed i'w sefydlu ei hunain yn y gymuned Tîm Aber, yn ogystal â chael effaith bositif ar y gymuned fyfyrwyr. |
| | **Gwelliant Fwyaf Cymdeithas y Flwyddyn** | Dyfernir hon i gymdeithas sydd wedi gwella ansawdd ei chymdeithas ac ymgysylltu â'i haelodau o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Gall hyn fod oherwydd, ond heb ei gyfyngu i, wella ystod o'r gweithgareddau a ddarperir, gwella cyfathrebu, cydweithio ayyb. |
| | **Gwobr Gyfrannu'r Mwyaf** | Dyfernir y wobr hon i gymdeithas mae ei haelodau wedi rhoi amser o'u gwirfodd dros achos da trwy gydol y flwyddyn, ac wedi treulio amser yn helpu y gymuned fyfyrwyr / lleol, neu wedi codi arian dros achos da. |
| | **Gwobr Diwylliant Cymreig** | Mae'r gymdeithas yn gwneud dwyieithrwydd yn rhan bwysig o'i weithgareddau a'i ddeunydd hyrwyddo (ee ar y cyfryngau cymdeithasol a'i ddigwyddiadau), yn cadw diwylliant/treftadaeth Cymru, yn ogystal â chynnal gweithgareddau diwylliannol Cymreig a'i fod wedi mynd ati i annog i siaradwyr Cymraeg gymryd rhan. |
| | **Cynaladwyedd** (Diwylliannol/Cymdeithasol, Amgylcheddol ac Economaidd) | Mae'r gymdeithas hon wedi mynd ati i hyrwyddo cynaladwyedd o fewn ystod eang o'i gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys cynaladwyedd diwylliannol / cymdeithasol, cynaladwyedd amgylcheddol a / neu gynaladwyedd economaidd. |
| *Gwobr Unigolyn* | **Aelod Cymdeithas y Flwyddy** | Cyflwynir y wobr hon i'r unigolyn sydd wedi rhagori yn ei faes ac sydd wedi gwella enw da Aberystwyth. Mae'n bosib y bydd wedi cynrychioli ei gymdeithas ar lefel ranbarthol / genedlaethol neu wedi rhagori o fewn strwythur y brifysgol neu'r undeb. |
| | **Personoliaeth Cymdeithasau'r Flwyddyn** | Fe'i cyflwynir i unigolyn sy'n uchel ei barch o fewn ei gymdeithas, ond sydd hefyd yn dangos dawn bersonol, hiwmor a brwdfrydedd ym mhob agwedd o'i gymdeithas a chymuned Tîm Aber yn gyffredinol. |
| | **Lliwiau'r Brifysgol: Cymdeithasau (15)** | Cyflwynir y wobr hon i fyfyriwr unigol sydd wedi dangos ymroddiad rhagorol parhaus neu wedi gwneud cyfraniad eithriadol i'w cymdeithas. |
| *Gwobr Bwyllgor* | **Gwobr Ragoriaeth Bwyllgor** | I ddyfarnu'r wobr hon, rydym yn chwilio am bwyllgor sydd wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl i gydweithio a darparu ystod o ddigwyddiadau / gweithgareddau i'w aelodau. Mae hefyd wedi gweithio'n effeithlon fel tîm, wedi cyfathrebu'n dda ymysg ei gilydd a'i aelodau, ac wedi rhoi cynwysoldeb ar y blaen. Byddant hefyd wedi cymryd rhan yn nigwyddiadau a gweithgareddau yr UM; ynghyd â magu perthnasoedd gydag ardaloedd allweddol yr UM, yn bennaf gydag aelodau'r Tîm Cyfleoedd, y Staff Cyllid a sefydliadau mewnol neu allanol eraill. |